

Cynnyd ar

hawliau anabledd

yn y Deyrnas

Unedig

Adroddiad diweddaru
Mecanwaith Annibynnol y DU
i Bwyllgor y CU ar Hawliau
Personau ag Anableddau

Hydref 2018

Crynodeb gweithredol

Fis Awst 2017, archwiliodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (y Pwyllgor CRPD) y graddau y mae Llywodraeth y DU yn cydymffurfio â'r Confensiwn ar Hawliau Pobl Anabl (UN CRPD). Nodwyd manylion prif bryderon ac argymhellion Pwyllgor CRPD i'r DU a'r llywodraethau datganoledig yn ei 'sylwadau clo'.¹ Gwnaeth y Pwyllgor CRPD gais i'r DU am wybodaeth flwyddyn wedi archwilio'r camau a gymerwyd i roi ei argymhellion ar y materion canlynol ar waith: byw'n annibynnol; gwaith a chyflogaeth; a safon byw ac amddiffyniad cymdeithasol digonol; yn ogystal â rhai materion cysylltiedig sy'n cael eu trafod yn yr adroddiad ar ymchwiliad y Pwyllgor CRPD yn 2016.²

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi barn annibynnol Mekanwaith Annibynnol y DU (UKIM) ar y camau a gymerwyd gan lywodraethau'r DU i roi'r argymhellion hyn ar waith ers Awst 2017.

Flwyddyn wedi i Bwyllgor CRPD archwilio hanes y DU ar hawliau pobl anabl, gwelwyd peth cynnydd, er enghraifft:

- adolygiad annibynnol o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- cynnydd yn nifer y bobl anabl mewn gwaith, a lleihad bychan yn y bwloch mewn cyflogaeth i bobl anabl; a mentrau'r llywodraeth i wella mynediad pobl anabl i gyflogaeth ar hyd a ledled y DU
- cynnydd sylweddol yn y cap taliadau Mynediad i Waith
- cais i gyflwyno targedau ar gyfer nifer y bobl anabl sy'n cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus yn yr Alban
- rhoi ar waith strategaeth lliniaru diwygiadau lles cyfnod-penodol yng Ngogledd Iwerddon
- rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru

¹ Y Pwyllgor CRPD (2017), '[Concluding observations on the initial report of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland](#)', CRPD/C/GBR/CO/1 [agorwyd: 16 Gorffennaf 2018].

² Y Pwyllgor CRPD (2017), '[Inquiry concerning the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland carried out by the Committee under article 6 of the Optional Protocol to the Convention](#)'; Llywodraeth y DU (2017), '[Observations by the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland on the report of the Committee on its inquiry carried out under article 6 of the Optional Protocol](#)' [agorwyd y ddau: 6 Awst 2018].

- mesurau arfaethedig i fynd i'r afael ag iaith sy'n ennyn casineb, aflonyddu a cham-drin yn y DU.

Fodd bynnag, camau cyfyngedig yn unig a gymerodd y DU i fynd i'r afael â phryderon ac argymhellion Pwyllgor CRPD. Mae'r UKIM wedi siomi nad yw llywodraethau'r DU wedi bachu ar y cyfle pwysig hwn i fyfyrion ac i wneud cynnydd o ran hawliau anabledd. Rydym yn pryderu am ddiffyg ymateb prydlon i argymhellion y Pwyllgor CRPD. Yn anad dim, 12 mis yn ddiweddarach, nid oes unrhyw strategaeth gynhwysfawr DU-gyfan o ran y modd y bydd y DU yn rhoi argymhellion y Pwyllgor CRPD ar waith. Bu llywodraethau'r DU yn gyson gyndyn i dderbyn casgliadau adroddiad ymchwiliad y Pwyllgor CRPD ar effaith polisiâu llywodraeth y DU ar hawliau pobl anabl.

Croesawn y cyhoeddiad fis Mai 2018 fod Llywodraeth y DU yn sefydlu Grŵp Rhyng-Weinidogaethol ar Anabledd a Chymdeithas Mae hwn yn gam positif, a allai fynd i'r afael â'r diffyg arweinyddiaeth a momentwm cyfredol. Fodd bynnag, nid yw cylch gorchwyl cyhoeddedig y grŵp rhyng-weinidogaethol yn cyfeirio at y CRPD nac argymhellion Pwyllgor y CRPD ac nid yw'n darparu'n benodol ar gyfer cyfranogiad ac ymgysylltiad effeithiol sefydliadau pobl anabl na phobl anabl eu hunain, a hefyd nid yw'n eglur a yw'r gweinyddiaethau datganoledig yn rhan o'r grŵp ac os felly i ba raddau.³

Yn y cyfamser mae'r darlun sy'n dod i'r amlwg o'r dystiolaeth ddiweddaraf am fywydau pobl anabl yn parhau i fod yn destun pryder dwys Mae pobl anabl ar hyd a lled y DU yn parhau i wynebu crebachiad difrifol ar eu hawliau, fel y cyflwynir yn hyn o adroddiad. Mae amddiffyniadau cymdeithasol wedi'u lleihau, a phobl anabl a'u teuluoedd yn parhau i fod ymysg y rhai sy'n dioddef fwyaf. Mae mwy a mwy o bobl anabl yn ei chael hi'n anodd byw'n annibynnol a chael eu cynnwys yn eu cymunedau ar sail gyfartal gan gyfranogi o'r cymunedau hynny.

Ceir ofnau y bydd yr ansicrwydd sylweddol sy'n digwydd o ran Brexit yn arwain at ddirywiad pellach yn hawliau pobl anabl. Mae diffyg llywodraeth ddatganoledig yng Ngogledd Iwerddon hefyd yn bryder penodol i'r awdurdodaeth honno, oherwydd ei bod yn llesteirio'r adrannau perthnasol yn sylweddol rhag cymryd y camau gofynnol.

Heb gynllun eglur a chydgyssylltiedig ar gyfer y modd y bydd y DU a'r llywodraethau datganoledig yn mynd i'r afael ag argymhellion y DU yn systemataidd, mae'r camau cyfyngedig a gymerwyd hyd yma'n annhebygol o fod yn ddigonol wrth fynd i'r afael â'r pryderon y mae Pwyllgor CRPD yn eu codi.

³ Swyddfa Materion Anabledd y Grŵp Rhyng-Weinidogaethol ar Anabledd a Chymdeithas. Ar gael [yma](#) [agorwyd: 15 Awst 2018].

Gallwch chi lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn oddi wrth

www.equalityhumanrights.com

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd: Hydref 2018
